Siaradodd PACEY Cymru â Josephine, gwarchodwr plant cofrestredig yn Abertawe, i glywed am ei phrofiadau, ei mewnwelediadau a'i syniadau am hil, cydraddoldeb ac amrywiaeth a chefnogi ymarfer gwrth-hiliaeth.

**Dywedwch wrthym amdanoch chi'ch hun.**

Dw i'n dod yn wreiddiol o Ghana yng ngorllewin Affrica ac rydym wedi bod yn y DU am yr 16 mlynedd diwethaf.

**Dywedwch wrthym amdanoch chi'ch hun.**

Dw i'n dod yn wreiddiol o Ghana yng ngorllewin Affrica. Cefais fy ngeni yn y brifddinas, Accra. Ymfudodd fy nheulu yno o Togo. Mae fy rhieni a dwy chwaer hefyd yn dod o Ghana, ac rydym wedi bod yn y DU am yr 16 mlynedd diwethaf. Mae gen i ddau o blant hardd, pedair a dwy oed. Rydw i wrth fy modd yn bod yn fam ac maent wedi fy ngwthio i fod eisiau cyflawni mwy.

**Sut mae eich profiadau eich hun yn dylanwadu ar eich lleoliad a'ch ymarfer?**

Rydw i am i'r plant deimlo y gallant ddod ataf os yw rhywun wedi eu trin yn annheg neu wedi bod yn hiliol tuag atynt. Dydw i ddim eisiau i unrhyw blentyn fynd trwy'r hyn rydw i wedi bod drwyddo. Gallaf uniaethu â nhw a'u dysgu nad oes rhaid i'w golwg, neu'r ffordd maen nhw'n siarad, eu hatal rhag gwneud neu gyflawni unrhyw beth. Rydw i'n gobeithio oherwydd fy mhrofiad fy hun y gallaf ddysgu mwy iddynt.

**Beth fyddai eich awgrymiadau ar gyfer cefnogi ymarfer gwrth-hiliaeth mewn lleoliad gofal plant?**

- Siaradwch â'r plant. Byddwch yn agored ac yn onest. Gall fod yn bwnc brawychus i'w addysgu ond mae mor bwysig.
- Heriwch stereoteipiau negyddol a dewch o hyd i straeon cadarnhaol i'w rhannu.
- Gwnewch hi'n hwyl i brofi diwylliannau eraill.
- Byddwch yn agored i roi cynnig ar brofiadau newydd a dysgu pethau newydd. Cadwch feddwl agored.
- Dysgwch gan eraill. Mae cymaint i'w ddysgu am ddiwylliannau gwahanol. Dychmygwch pe bai'r holl bobl yr un peth, pa mor ddiflas fyddai'r byd?

[Darllenwch y blog yn llawn yma]

**Cyhoeddwyd gan Josephine, gwarchodwr plant cofrestredig ac aelod o PACEY yn Abertawe.**